

COFLAI Owen Charles am yr arferiad o gynnal cyfarfodydd gweddi yn anhedd-dai yr ardal – “Fe fum i gyda f'ewyrth mewn amriw ond mae un lle wedi aros yn arbennig yn fy meddwl sef hen dŷ y Corlwyni, tŷ bychan hen ffasiwn i'w gymharu a heddiw, dwy ystafell yn unig, cegin a siamber. Isaac Roberts yn eistedd yn ei gadair freichiau a'r wraig yn eistedd gyferbyn ag ef, a'r hen ford gron ar ganol y llawr a phawb o'u hamgylch yn gweddio yn olau lamp bach paraffin; prin yr oeddynt yn gweld eu gilydd. Mae'n siŵr fod dylanwad yr hen seintiau arnom ni y plant.”

Yr oedfaon yng nghapel Peniel ar y Sul oedd penllanw yr wythnos i Ellis Roberts fel ar 11 Mai, 1920, “*I had Sunday School*. Cynan yn rhoi darlith dda ar y Maes Llafur sef Ffengyl Ioan. Cafwyd pregeth ardderchog wedyn yn yr hwyr.”

Yr un flwyddyn daeth i'r Cyfarfod Diolchgarwch ar 20 Hydref. “Caed tywydd da ar y cyfan. cynulleidfa dda. casgliad gweddol. amryw yn bresennol na fyddant byth (yn) tywyllu y capel adeg arall.”

Gŵr tawel oedd Ellis Roberts yn y capel, ond yn unigeddau ei gartref, 'roedd weithiau yn ddyd gwahanol. “Rwyf yn cofio ei weld lawer tro yn mynd am y Foty i odro gyda'r nos yn yr haf, ac wedi cyrraedd top y steps fel bydda ni yn eu galw, fe arosai ar y skyline gan guro ei ddwylo a thaflyd ei freichiau i'r awyr a sgwrsio ar ben ei lais pe byddai rhywbeth wedi ei gynhyrfu y diwrnod hwnnw fel lecsiwn, neu ddim yn cydweld a'r bregeth y Sul, neu heb gael ei blesio yn yr Ysgol Sul. Fe fyddwn i wrth fy modd yn ei weld er mwyn cael galw ar Modryb ai chlywed yn dweud y drefn a dyna fydda hi yn waeddi “*Get on and milk them cows, you cythraul you, people can hear you*”, ac fe a reit dawel. Wrth gwrs doedd neb ond teulu Tanrhiw i glywed ac mae'n siŵr eu bod wedi hen arfer.”

* * *

MAE'N DEBYG mai'r ychydig oriau a dreuliai yn y capel oedd yr unig gyfle a gai Ellis i eistedd yn dawel. Derbyniai Y Goleuad, Y Cymru Coch, Trysorfa'r Plant a'r Genedl, a darllenodd yr olaf am bum mlynedd a deugain nes iddo orfod cymryd yr Herald wedi i'r Genedl “dynnu i'r terfyn”.

Unwaith fe anghofiodd Owen Charles ddod â'r papur o'r pentref, “a pwy oedd yn y drws ond f'ewyrth. lle mae'r Genedl meddai, wedi anghofio hi meddwn innau – Dos yn ol y funyd yma meddai, a throi ar fy sowl fy rhaid heb de.”

Yn 1927, daeth y 'wireless' i'r Clogwyn, fel anrheg oddi

wrth Kate, chwaer Ellis a oedd yn gweini yn Llundain.

“Box scwar oedd y teclyn a corn ar wahan, ar dirgelwch oedd sut oedd y swm ar miwsic yn dod o Lundain ac allan drwy'r corn. roedd pawb wedi rhyfeddu, a llawer o'r cymdognion yn dod i weld y rhyfeddod.”

Meddai Ellis, “*Having a grand concert from the Queen's Hall, London, tonight. its marvellous, a theulu Tanrhiw yn galw i'n gweld. peth braf iawn cael y newyddion*”. Tra byddai Ellis yn y capel, gwrandawai Agnes ar y gwasanaethau ar y radio.

Yn ystod y cyfnod, bu mân welliannau ar adeiladau y Clogwyn a chafwyd grât newydd yn 1914. Yn 1929, daeth newid arall, pan brynwyd 'separator' a buddai 'end over end' i gymeryd lle yr hen ddull o gorddi gyda chymorth dŵr o'r llyn, a gwerthwyd yr hen fuddai i Morgan Roberts, Gelli Iago, am £2.10.0d.

Wrth gwrs nid oedd grym y trydanwedi cyrraedd y Clogwyn, a daliwyd i ddiwynnu ar yr hen lamp paraffin i oleuo y tŷ a channwyll i fynd i'r gwely, ond, meddai Owen Charles, “os bydda hi yn noson oleu lleuad mynd heb y gannwyll. roedd y lleuad wedi cymeryd drosodd i arbed y gannwyll.”

* * *

ERBYN 1938, 'roedd Ellis yn 65 oed, ac yr oedd ef ac Agnes o'r diwedd yn gorffod cyfaddef eu bod yn edrych ymlaen at gael ysgafnhau eu beichiau beunyddiol. 'Roedd meddwl am ymadael â'r Clogwyn, ei ddistawrwydd a'i harddwch, yn loes, ond gyda'r dogn helaeth o synnwyr cyffredin a'u nodweddant, ynghyd â'r ymwybyddiaeth o'r ffaith nad oedd ganddynt blant i etifeddu'r lle, penderfynwyd torri'r cwlwm yn lân, ac ymadael oddi yno am bentref Nantmor, lle'r oedd tŷ bychan gweddol newydd, sef 'Y Gored', 'byngalo' a adeiladwyd gan David Jones, 'y gas', o Borthmadog, yn digwydd bod ar gal.

Gosodwyd tir y Clogwyn i William Owen, Corlwyni, a'r tŷ ei hun i ddiethriaid o Gaer-lyr. Rhaid hefyd oedd cael gwared o'r anifeiliaid a'r celfi, ac ar 21 Fai, 1938, casglwyd y defaid ynghyd i'w prisio.

“Tom Richards Y Wern imi, ac Owen Roberts, Tyddyn Morthwyl, dros William Owen, Corlwyni, 69 o ddefaid i mewn. Williams, Garddillygaidydydd yn ol, ac yn talu am y buchod. Galwodd Jones Castell yma gydar nos i brynu rhyw fan bethau a'r maen llifio.”, a'r un diwrnod “Aeth Cwpwrdd Tridarn ymaith heddiw. Gwerthwyd i Mrs

Gurrell Caedafydd am £15.”

Ar 25 Fai, “Godro yn y Gors Cae Castell, hwn y tro olaf yn fy hen gartref, y teulu yma ers dros 200 mlynedd, gresyn na fai olynnydd.” Ar 3 Fehefin, daeth John Williams, Beudynnewydd, yno i lwytho'i dodrefn, ac ar ôl galw am funud i ffarwelio â theulu'r Carneddi, aeth yr hen bar i lawr yng ngerbyd un o'r cymdognion i bentref Nantmor – “Cysgu yn y Gored heno”.

* * *

OS BU hiraeth am y Clogwyn, ni chafodd fynegiant yn y dyddiaduron, ac i bob ymddangosiad, buan y daeth y ddau i ymgartrefu yn y Gored. Roedd bywyd yn llawer haws yno, gydag ymweliadau derbyniol 'Alun Baker', 'Roberts, y gwerthwr pysgod gyda'i 'benwaig ffres', a'r 'bwtsiwr', y cwbl o Benrhyndeudraeth, a galwai 'negesydd Tŷ Emrys' yn gyson o'r siop ym Meddgelert.

Ar ddydd Iau, rhaid oedd galw yn Swyddfa'r Post i gael y pensiwn, a chan fod hen gyfeillion yn falch o gael taro i mewn i'r Gored am sgwrs, yn lle gorffod ymlwybro i fyny i'r Clogwyn, 'roedd pob dydd yn llawn diddordeb. Wrth gwrs, nid oedd bron neb o'u cymdognion yn ddieithr iddynt, a daethant yn fuan i wneud ffrindiau ymhlith cenhedlaeth newydd mysg y plant o'u cwmpas.

Yn awr, 'roedd modd mynd i'r capel dair gwaith ar y Sul, heb boeni am odro nac am gyflwr y gwair, a hamdden hefyd i fynd am ambell wibdaith oddi cartref, fel pan aeth Ellis gyda'i frawd i'r Gymanfa Gyffredinol yng Nghaernarfon i glywed pregethwyr fel Eliseus Howells, a Morgan Griffith. Wedi'r oedfa, aeth y ddau am dro o gwmpas i 'weld darn newydd o'r dref a elwid gynt yn Ysgubor Goch – clirio y slums.’

Nid oedd yr hen frawd cymwynasgar yn cael cyfle i fod yn segur a gwelwn ei hanes yn helpu ffermwyr yr ardal – palu'r ardd a godro i'r wraig weddw yn Gelli'r Ynn, lladd tyrchod daear yn Bryn Bont, cneifio yn Meudy Newydd, a'r Carneddi, “coethi defaid” Tanrhiw ar yr Arddu, a helpu gyda'r gwair mewn sawl lle.

Er ei fod bellach yn mwynhau 'nap' ar ôl cinio, ac yn cael peth newydd ac amheuthun, sef bath, nid oedd yr un gwyn segur yn ei gyfansoddiad, ac ar 30 Fehefin, 1938, nid oedd yn ei chael yn ormod i 'nol brigau ar Frynystumiau yn y bore. Llifo ychydig yn y prynhawn. Gwisgo wedyn a mynd i fynu i Oerddwr i edrych am John Hughes sydd yn analluog er llog mlynedd. Yn ei wely y mae, ond yn sgwrsio am hen bethau, a'i gof yn dda iawn.

Adref heibio Ty'n yr Hendre a galw yn Beudy Coed hefo William Parry.

Pan ddaeth y rhyfel, derbyniodd Ellis y drefn yn eithaf di-gyffro, gan nodi yn gwt a nifer y ffoaduriaid a ddaeth i'r ardal a'r ysgol, a chwyno fod yr 'Income Tax yn uchel iawn'.

Wedi oes o fyw yn unigeddau'r mynyddoedd, yr oedd bob amser yn annibynnol ei farn, a phan alwodd cymydog heibio 'hefo Papurau dros Gynhadledd Heddwch, gwrthodais arwyddo', er bod ei fab mabwysiedig, Gough Williams, bellach yn Aldershot ac ar fin cychwyn i Ffrainc.

Daliodd i gerdded i Feddgelert – unwaith i angladd Mr Jenkins y Person – “Llund yr eglwys, 16 o offeiriad mewn gwenwisg”, ac unwaith i Ffair Gŵyl y Grog, lle cafodd siom – “Aethum trwy'r twnel – dim ond un bwrdd India Rock a dyn arall o Salford yn gwerthu llestri – di-hwyl hollol.”

* * *

WEDI i Ifan Anwyl Williams, Beudy Newydd, roi'r gorau i gario'r post ym 1939, ymgymerodd yr hynafgwyr, fel 'trustworthy man' â'r gwaith, yr hyn a olygai ei fod yn cerdded milltiroedd trwy bob tywydd, cyn belled â Thanrhiw, neu Hafod y llyn a'r Ferlas, ond mae'n debyg ei fod yn falch o'r cyfle i gael sgwrs â hen gyfeillion.

Erbyn hyn, fodd bynnag, mae ambell arwydd ei fod ef ac Agnes yn dechrau teimlo y mân wendidau a ddaw yn sgil henaint – poen yn y fraich chwith, cur pen ac annwyd, ac ar ddiwedd 1938, bu raid iddo fynd i'r Port “ynghylch y lwmp sydd ar fy mhen.” Cafodd driniaeth lwyddiannus, gyda “Dr Lansbury o Bangor yn cyflawni lyweithred arnaf.”

Wedi oes mor brysur, anodd oedd derbyn fod y nerth a'r iechyd yn pallu, ond ar 10 Awst, 1943, rhaid oedd cyfaddef “Nid wyf yn teimlo hanner da. Swatio yn y tŷ y rhan fwyaf”. Ar 28 Hydref, ysgrifennodd ei eiriau olaf yn y dyddiadur, “Caed oriau o haul braf heddiw ac awel o wynt. ffinau yn fy ngwelu hyd ganol prydaawn wedi mynd i wendid mawr.”

Bu Ellis Roberts farw 5 Rhagfyr, 1943, ac fe'i claddwyd gyda'r hen deulu ym Meddgelert. Gwir y dywedodd Carneddog:

“Un gwych a diddan ei go – a graddau
Gwreiddiol Gristion ganddo
Ei fryd oedd achos ei fro
A garai yn ddiguro.”

Ar ôl symud i gartref newydd ym Meddgelert cafodd Agnes fyw nes ei bod yn 94 oed pan fu farw yn 1967.